# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG 2025

## Crynodeb



# Rhagair i’r Adroddiad Blynyddol gan y Gweinidog

Mae'n anrhydedd cyflwyno adroddiad blynyddol eleni, sy'n nodi blwyddyn o ddiwygio ac adnewyddu sylweddol ar draws y maes amddiffyn. Mewn cyfnod o ansefydlogrwydd cynyddol ar draws y byd, mae rôl ein Lluoedd Arfog yn bwysicach nag erioed. Mewn cyfnod o fygythiadau parhaus sy'n esblygu, mae ein gallu i amddiffyn y genedl a chynnal ein hymrwymiadau dramor yn dibynnu'n llwyr ar broffesiynoldeb staff ein lluoedd arfog a gwydnwch y teuluoedd a'r cymunedau sy'n eu cefnogi. Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i adnewyddu ei chontract gyda chymuned y Lluoedd Arfog, gan ddarparu dau ddyfarniad cyflog uwch na chwyddiant i aelodau'r lluoedd arfog. Rydym yn cyflawni ein haddewid i wneud Prydain yn gadarn gartref ac yn gydnerth dramor.

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Prif Weinidog ein cynlluniau i ymestyn Dyletswydd Gyfreithiol Cyfamod y Lluoedd Arfog. Bydd hyn yn sicrhau bod cymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei pharchu a’i hystyried, nid yn unig wrth drafod, ond bod hyn hefyd yn rhan annatod o'n penderfyniadau polisi a chyflenwi gwasanaeth. Bydd y ddeddfwriaeth gryfach hon yn sicrhau y bydd gofyniad cyfreithiol ar holl adrannau'r llywodraeth, gan gynnwys llywodraethau datganoledig, i ystyried anghenion cymuned y Lluoedd Arfog wrth lunio polisïau neu wneud penderfyniadau, gan roi llais ystyrlon iddynt a chyflawni addewid y llywodraeth hon i roi cymuned y Lluoedd Arfog wrth galon penderfyniadau'r llywodraeth. Mae eu dewrder, eu dyletswydd a'u haberth yn sail i’n gwerthoedd cenedlaethol, ac maent yn haeddu'r gorau.

Rydym yn darparu dull gweithredu cymdeithas gyfan ar gyfer amddiffyn drwy ein Hadolygiad Amddiffyn Strategol (yr Adolygiad) - y cyntaf o'i fath - a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025. Roedd yr adolygiad pwysig hwn yn nodi 62 o argymhellion, ac mae pob un ohonynt wedi cael eu derbyn yn llawn. Mae'r diwygiadau hyn eisoes yn trawsnewid amddiffyn: sefydlu strwythurau newydd, cryfhau atebolrwydd, a sicrhau bod ein pobl yn cael eu cefnogi gyda'r adnoddau, yr hyfforddiant a'r gwasanaethau llesiant y maent yn eu haeddu. Yn hollbwysig, mae'r adolygiad yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog, gan gydnabod bod amddiffyn cenedlaethol yn gyfrifoldeb a rennir ar draws y llywodraeth, cymunedau a diwydiant.

Rydym wedi paru'r bwriad strategol hwn â chamau pendant, gan sicrhau gwelliannau go iawn i fywydau staff ein lluoedd arfog a'u teuluoedd. Ein cenhadaeth yw codi morâl, gan roi pobl wrth galon ein cynlluniau amddiffyn. Mae hyn yn cynnwys y dyfarniad cyflog mwyaf i'r Lluoedd Arfog ers dros ddau ddegawd - sy’n cynnwys codiad o 35% i recriwtiaid newydd - sy'n dangos ein bod yn cydnabod pwysau bywyd yn y lluoedd arfog. Ochr yn ochr â hyn, gyda chymorth £50 miliwn o gyllid, bydd VALOUR - a gyhoeddwyd ym mis Mai eleni - yn sicrhau y bydd cyn-filwyr ledled y DU yn gallu cael gafael ar ofal a chymorth hanfodol yn haws. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i adnewyddu contract y wlad gyda'r rheini sydd wedi gwasanaethu drwy'r Cynllun ar gyfer Newid.

Rydym wedi cymryd camau beiddgar i wella tai, gan gyhoeddi ein Strategaeth Tai’r Weinyddiaeth Amddiffyn newydd yn ddiweddar gyda'r cytundeb amlflwyddyn uchaf erioed o £9 biliwn mewn buddsoddiad, gan gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn yr Adolygiad. Mae'r cyllid hwn yn dilyn cytundeb pwysig mis Ionawr lle cafodd dros 36,000 o gartrefi i aelodau’r lluoedd arfog eu caffael eto o ddwylo


cwmnïau preifat, gan fynd i'r afael â phryderon hirsefydlog ynghylch fforddiadwyedd ac ansawdd. Ochr yn ochr â hyn mae'r polisi ‘cartrefi i arwyr’ yn golygu y bydd cymorth ar gael o dan y llywodraeth hon i gyn-filwyr sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae hyn yn cynnwys dileu'r prawf cysylltiad lleol, gan ei gwneud yn haws cael gafael ar dai cymdeithasol.

Ym mis Medi 2025, fe wnaethom ehangu cyllid gofal plant blynyddoedd cynnar dramor i gyfateb i'r cynnig sydd ar gael yn Lloegr, gan alluogi teuluoedd sy'n gweithio i gael gofal plant sy'n cael ei ariannu gan y weinyddiaeth amddiffyn am 30 awr yr wythnos, fesul plentyn, am 38 wythnos y flwyddyn, o’r adeg pan fo’r plentyn yn naw mis oed tan mae’n dechrau'r ysgol. Mae'r cynllun hwn o fudd i 900 o deuluoedd y lluoedd arfog ac mae'n cefnogi 2,000 o blant ledled y byd, gan arbed £5 miliwn y flwyddyn gyda'i gilydd. Ar ben hynny, mae rhaglen Cymorth i Ddisgyblion y Lluoedd Arfog yn parhau i ddarparu cyllid ychwanegol i ddarparwyr addysgol, gan sicrhau bod anghenion disgyblion teuluoedd y lluoedd arfog yn cael eu diwallu drwy ymyriadau effeithiol ar hyd eu teithiau addysgol. Yn y rownd gyllido ddiweddaraf, dyfarnwyd ychydig dros £2.5 miliwn i 34 o brosiectau ledled y DU, pob un ohonynt wedi ymrwymo i helpu disgyblion y lluoedd arfog i ffynnu.

Rydym hefyd yn sicrhau mwy o degwch ac atebolrwydd. Mae cyflwyno proses gwyno newydd sy’n mynd drwy dri gwasanaeth, wedi'i chefnogi gan dasglu trais yn erbyn menywod a merched, yn sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu a bwlio. Rydym wedi cymryd cam mawr tuag at gryfhau'r gefnogaeth i'n Lluoedd Arfog, a'r teuluoedd sy'n eu cefnogi. Bydd Deddf Comisiynydd y Lluoedd Arfog 2025 yn sefydlu comisiynydd annibynnol, gan gyflawni ein hymrwymiad maniffesto i sefydlu hyrwyddwr annibynnol ar gyfer ein lluoedd.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o gamau beiddgar i'n lluoedd a'u teuluoedd: sicrhau cyflogau, tai, llesiant, goruchwyliaeth a buddsoddiad hirdymor yn ein pobl a'n galluoedd. Mae'r gwaith yn parhau, ond mae'r cyfeiriad yn glir. Mae ein Lluoedd Arfog a'u teuluoedd yn aberthu llawer. Yn gyfnewid am hynny, maent yn haeddu parch, cefnogaeth a’u trin yn deg. Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn seiliedig ar egwyddor syml ond pwerus: ni ddylai neb yng nghymuned y Lluoedd Arfog wynebu anfantais o ran cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus na masnachol. Rydym yn rhoi cymuned y Lluoedd Arfog wrth galon penderfyniadau'r llywodraeth. Mae eu dewrder, eu dyletswydd a'u haberth yn sail i’n gwerthoedd cenedlaethol, ac maent yn haeddu'r gorau.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein hymrwymiad diwyro i'r egwyddor honno, a'n penderfyniad i adeiladu cymuned amddiffyn sy'n cael ei gwerthfawrogi, ei diogelu a'i grymuso.



Y Gwir Anrhydeddus John Healey AS – Ysgrifennydd Gwladol Dros Amddiffyn





Prif Weinidog y DU, Keir Starmer (canol) a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn John Healey (chwith) yn cwrdd â’r Arglwydd Robertson (dde) pennaeth Adolygiad Amddiffyn Strategol y Llywodraeth.

# Iechyd a gofal iechyd

Mae sicrhau bod cymuned y Lluoedd Arfog yn cael gofal iechyd amserol o ansawdd uchel yn brif flaenoriaeth i’r weinyddiaeth amddiffyn a'i phartneriaid. Mae'r adroddiad llawn yn nodi cyflwr presennol y ddarpariaeth feddygol, ddeintyddol ac iechyd meddwl ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'n tynnu sylw at gynnydd o ran datblygu polisïau, rhaglenni arbenigol a chydweithio â'r GIG a llywodraethau datganoledig, ac yn cydnabod heriau parhaus fel mynediad deintyddol a llwybrau gofal arbenigol ar yr un pryd.

Mae uchafbwyntiau’r gwaith hwn i wella gwasanaethau gofal iechyd dros y cyfnod adrodd yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r un pwynt cyswllt a weithredir gan GIG Lloegr yn parhau i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog i gael gafael ar ofal iechyd.
- Mae'r gwaith o integreiddio cofnodion iechyd electronig rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r GIG yn dal ar y trywydd iawn ar gyfer 2026.
- Mae’r gwasanaeth Op RESTORE, a sefydlwyd yn wreiddiol fel Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr, wedi cael dros 1,350 o atgyfeiriadau ers ei sefydlu.
- Ers i Op NOVA ddechrau yn 2023, mae'r gwasanaeth wedi cael dros 2,500 o atgyfeiriadau am gymorth i gyn-filwyr sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder, gyda 1,397 o atgyfeiriadau wedi dod i law yn 2024/2025.

# Addysg

Mae addysg yn ganolog i lesiant a rhagolygon hirdymor staff a theuluoedd y lluoedd arfog. Mae'r adroddiad llawn yn archwilio'r cynnydd a wnaed o ran cefnogi parhad addysgol plant y lluoedd arfog, o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwch. Mae hefyd yn ymdrin â datblygu prentisiaethau a chyfleoedd dysgu pellach i aelodau'r lluoedd arfog gryfhau llwybrau gyrfa yn ystod ac ar ôl eu gwasanaeth.

Mae gwaith i wella addysg a llesiant plant y Lluoedd Arfog yn cynnwys:

- Premiwm Disgyblion y Lluoedd Arfog gwerth £26 miliwn yn cefnogi 76,000 o ddisgyblion.
- Cronfa Teuluoedd y Lluoedd Arfog yn buddsoddi £3.2 miliwn mewn 56 o brosiectau addysg.
- 23,000 o staff y lluoedd arfog yn dilyn prentisiaethau ar draws pob rheng.
- Canllawiau newydd ar y cyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn/yr Adran Addysg yn ymgorffori dyletswyddau Cyfamod mewn cynllunio addysg yn lleol.



Datblygu tai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Wiltshire

# Tai a llety

Mae tai gweddus yn sail i lesiant a sefydlogrwydd teuluoedd y lluoedd arfog ac mae'n hanfodol i effeithiolrwydd gweithredol. Mae'r adroddiad llawn yn amlinellu buddsoddiad mewn llety i deuluoedd y lluoedd arfog, cynnydd o ran mynd i'r afael â materion fel lleithder a llwydni, cynlluniau i ehangu perchnogaeth cartrefi, a mesurau i leihau digartrefedd ymysg cyn-filwyr. Mae hefyd yn myfyrio ar gynlluniau peilot ar gyfer tai dramor a pholisïau newydd sydd â'r nod o wella cysondeb ledled y DU a thramor.

Mae'r uchafbwyntiau, sy'n cynnwys llawer o fuddsoddi a chynllunio tymor hir i wella llety'r gwasanaeth, yn cynnwys:

- Dychwelyd 36,000 o gartrefi’r lluoedd arfog i berchnogaeth gyhoeddus.
- £1.5 biliwn o gyllid ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf, i gyflawni gwelliannau tymor hwy a pharhaus i dai llety i deuluoedd y lluoedd arfog yn y DU.
- Cyfle hirdymor wedi'i nodi i adeiladu dros 100,000 o gartrefi ar dir amddiffyn dros ben, gan wella cyfleoedd ar gyfer perchentyaeth a chreu swyddi ledled y wlad.
- Mae'r Gronfa Gyfalaf Tai i Gyn-filwyr, gwerth £20 miliwn, sy'n dair blynedd o hyd, wedi parhau i ddyfarnu grantiau ledled y DU. Yn ôl y ffigurau ar 30 Medi 2025, roedd y prosiect wedi dyfarnu 34 o grantiau sy'n dod i gyfanswm o £8.3 miliwn.

# Trefniadau pontio a chyflogaeth

Mae cyflogaeth sefydlog a boddhaus yn allweddol i ddiogelwch ariannol, llesiant, a symud yn llwyddiannus o fywyd milwrol i fywyd sifil. Mae'r adroddiad llawn yn nodi sut mae partneriaid amddiffyn a'r llywodraeth yn gweithio i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog i gael gwaith. Mae'n tynnu sylw at ddiwygiadau i bolisïau gofal plant a theuluoedd, gwasanaethau adsefydlu, ymgysylltu â chyflogwyr, a chynlluniau cenedlaethol sy'n cydnabod talent y Lluoedd Arfog.

Mae uchafbwyntiau yn y maes hwn yn cynnwys:

- Mae 81% o wŷr/gwragedd y lluoedd arfog mewn cyflogaeth yn y DU (cyfartaledd y DU: 78%).
- Mae diwygiadau gofal plant tramor o fudd i 900 o deuluoedd a 2,000 o blant, gan arbed £5 miliwn bob blwyddyn.
- Mae Gwasanaethau Unedig i Gyn-filwyr yn integreiddio gwaith achos pontio a lles, gan sicrhau bod achosion lles yn cael eu rheoli'n fwy cydlynol.
- Mae Amddiffyn ymhlith pum cyflogwr prentisiaeth gorau'r DU.

# Cwestau ac ymgysylltiad barnwrol

Uned Cwestau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yw pwynt cyswllt y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer crwneriaid yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac Uned Ymchwilio i Farwolaethau yr Alban, wrth iddynt ymchwilio i'r hyn achosodd marwolaeth personél y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a gweithwyr sifil y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae'r Uned wedi cofnodi bod 74 o gwestau (26 ohonynt yn ymwneud â marwolaeth cyn-filwr) wedi dod i ben rhwng 1 Hydref 2024 a 30 Medi 2025.

Nid yw cwestau eto wedi'u cynnal i 46 o farwolaethau personél milwrol, cyn-filwyr, a chontractwyr sifil neu'r Weinyddiaeth Amddiffyn a ddigwyddodd rhwng 1 Hydref 2024 a 30 Medi 2025.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cadarnhaodd Uned Ymchwilio i Farwolaethau yr Alban wrth Uned Cwestau'r Weinyddiaeth Amddiffyn ei bod wedi cwblhau ymchwiliadau i dair marwolaeth personél y Lluoedd Arfog. Yn achos y tair marwolaeth, roedd yr ymchwiliadau'n ddigon i ddeall yr hyn a oedd wedi achosi'r farwolaeth, felly nid oedd angen symud ymlaen i ymchwiliad i ddamwain angheuol (yr hyn sy'n cyfateb i gwest yn yr Alban).

Mae'r Uned yn olrhain dwy farwolaeth a allai arwain at ymchwiliad i ddamwain angheuol.

# Cymorth uniongyrchol i gymuned y Lluoedd Arfog

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei gyflawni drwy gyfuniad o gymorth uniongyrchol gan y llywodraeth, ymgysylltu â'r gymuned ehangach a chyflogwyr, a rhwymedigaethau statudol.

Cymorth uniongyrchol yw sylfaen ymarferol y Cyfamod. Yn yr adroddiad, mae'r bennod hon yn tynnu sylw at y gwasanaethau a'r rhaglenni sy'n darparu cymorth pendant i gymuned y Lluoedd Arfog. O lansio'r rhaglen VALOUR i waith Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae'n nodi sut mae'r llywodraeth a'i phartneriaid yn lleihau anfantais, yn cryfhau gwydnwch, ac yn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg ar draws cymuned y Lluoedd Arfog.

Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Lansio VALOUR gan uno cymorth lleol a chanolog i gyn-filwyr.
- Dros £13.5 miliwn wedi'i ddosbarthu drwy'r AFCFT.
- Wedi cyrraedd dros 300,000 o fuddiolwyr ar draws rhaglenni iechyd meddwl, teulu a chynhwysiant.
- Cyflawni Strategaeth Cyn-filwyr newydd.

# Partneriaethau cymunedol ac ymgysylltu â'r gweithle

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn adnodd canolog i'r weinyddiaeth amddiffyn i gryfhau cysylltiadau rhwng cymuned y Lluoedd Arfog a'r gymdeithas ehangach, gan annog sefydliadau i gynnig cymorth. Mae'n ymgorffori cyd-ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad rhwng y Lluoedd Arfog a'r cyhoedd, gan gydnabod aberth yr aelodau.

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r Adolygiad, sy'n ceisio dyfnhau'r berthynas rhwng amddiffyn a chymdeithas. Drwy hyrwyddo gwell dealltwriaeth a chefnogaeth drwy'r Cyfamod, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn datblygu fframwaith diogelwch cenedlaethol mwy cadarn a chynhwysol, gan sicrhau bod cyfraniadau cymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu cydnabod ar draws cymdeithas.

Mae'r adroddiad llawn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd y mae'r sectorau preifat a chyhoeddus a'r gymdeithas yn gyffredinol wedi ymgysylltu â'r Cyfamod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hefyd yn cynnwys cynlluniau i gefnogi cyflogaeth cymuned y Lluoedd Arfog, yn enwedig y rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr, drwy waith y Weinyddiaeth Amddiffyn, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac adrannau eraill y llywodraeth.

Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig ym mis Mai 2025 pan lofnododd y 13,000fed sefydliad y Cyfamod.
- Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi cael ei ehangu'n sylweddol, gan gyrraedd cyfanswm o 13,711 o lofnodwyr erbyn 30 Medi 2025. Ar yr un dyddiad, roedd ERS wedi

dyfarnu 1,211 gwobr aur, 1,482 gwobr arian, a 5,650 gwobr efydd i sefydliadau a oedd yn dangos cefnogaeth ragorol i staff y lluoedd arfog.

- Roedd cynhadledd y Cyfamod eleni yn llwyddiant ysgubol, gyda dros 250 o gynrychiolwyr yn bresennol wyneb yn wyneb a 200 yn ymuno ar-lein.



Red Arrows yn hedfan yn Nigwyddiad Cenedlaethol Diwrnod y Lluoedd Arfog yn Plymouth

# Dyletswydd Gyfreithiol y Cyfamod

Ym mis Mehefin 2025, datgelodd y Prif Weinidog gynlluniau newydd a oedd yn sicrhau, am y tro cyntaf, y bydd yn rhaid i bob adran o'r llywodraeth roi ‘sylw dyledus’ i Gyfamod y Lluoedd Arfog wrth lunio polisïau a gwneud penderfyniadau, gan ystyried profiadau ac anghenion penodol cymuned y Lluoedd Arfog.

Mae hyn yn cyflawni addewid maniffesto ac mae'n rhan o ymrwymiad y llywodraeth i adnewyddu contract y genedl gyda'r rhai sy'n gwasanaethu ac sydd wedi gwasanaethu, eu teuluoedd a'r rhai sydd wedi colli anwyliaid.

Bydd ymestyn y Ddyletswydd Gyfreithiol yn cwmpasu holl adrannau llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, gan adeiladu ar feysydd polisi presennol tai, addysg a gofal iechyd. Gyda'r meysydd polisi canlynol i'w cynnwys:

- Tai
- Addysg
- Gofal Iechyd
- Gofal cymdeithasol
- Gofal plant
- Treth bersonol
- Budd-daliadau nawdd cymdeithasol
- Cyfiawnder Troseddol
- Mewnfudo
- Dinasyddiaeth
- Pensiynau
- Trafnidiaeth
- Iawndal y Lluoedd Arfog
- Cyflogaeth

Mae'r Ddyletswydd Gyfreithiol yn fwriadol hyblyg, gan ganiatáu i gyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon wneud penderfyniadau ar gyflenwi gwasanaethau sy'n addas i'w cyd-destun a'u hanghenion lleol.

Wrth wraidd hyn, ystyriaeth yw’r ddyletswydd: ei nod yw meithrin mwy o ymwybyddiaeth o'r anfanteision posibl a wynebir gan gymuned y Lluoedd Arfog. Yn hytrach na rhagnodi canlyniadau penodol, mae'r Ddyletswydd Gyfreithiol yn sicrhau bod llunwyr polisïau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn mynd i'r afael â'u cyfrifoldebau mewn ffordd fwy gwybodus ac ystyriol, gyda dealltwriaeth o'r heriau unigryw y mae aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu.

Uchelgais y Weinyddiaeth Amddiffyn yw cynnwys y newidiadau statudol hyn ym Mil nesaf y Lluoedd Arfog, sy'n ofynnol bob pum mlynedd.